

**Gwasanaeth Cyswilt Cwsmer /  
Customer Contact Service  
Galw Gwynedd  
Rheolwr / Manager  
Joanne Parry**



Annwyl Ymgeisydd

**Ynglyn â: Bathodyn Glas – Cais Unigolyn**

Diolch am eich ymholiad ynglŷn â Bathodyn Glas.

Rwy'n amgáu ffurflen gais. Ar ôl ei llenwi, anfonwch hi drwy'r post i'r cyfeiriad isod, neu ewch â hi i un o'n Siopau Gwynedd (mae manylion ar y ffurflen).

Gallwch lenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, gan roi eu manylion hwy a defnyddio'ch llofnod eich hun.

Nid ydym yn defnyddio Meddygon teulu i asesu ceisiadau am Fathodyn Glas (yn dilyn penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol). Oherwydd hyn bydd rhaid chi roi tystiolaeth yn dangos sut yr ydych yn cyrraedd y meini prawf.

Ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen gais orffenedig, byddwn yn asesu eich cais yn ôl y meini prawf. Os na fyddwn yn gallu dod i benderfyniad, mae'n bosib y byddwn yn anfon eich cais ymlaen at aseswr annibynnol. Byddan nhw yn penderfynu ar sail y wybodaeth a roddwyd gennych chi ar y ffurflen neu trwy siarad wyneb-yn-wyneb efo chi.

Fe all gymryd hyd at 28 diwrnod iddynt ddod i benderfyniad ar ôl derbyn yr holiadur asesu pellach, mae'n bwysig ei ddychwelyd cyn gynted â phosib.

**Cofiwch, os na fydd tystiolaeth ddigonol yn cael ei dderbyn i gefnogi'r cais, bydd yn cael ei wrthod. Mae'n hanfodol i'r ffurflen gais gael ei chwblhau yn gyflawn gan gynnwys y dogfennau priodol.**

Dear Applicant

**Re: Blue Badge – Individual Application**

Thank you for your enquiry concerning a Blue Badge.

I enclose an application form. After completing it, send it by post to the address below, or take it to any of our Siop Gwynedd locations (details are on the form).

You can complete the form on behalf of someone else, giving their details and using your own signature.

We no longer use General Practitioners to assess Blue Badge applications, (following a decision by the Local Health Board) due to this you must provide evidence to confirm how you meet the qualifying criteria.

After receiving your completed application if we are unable to make a decision based on the information you have submitted, it may be forwarded to an independent assessment company. They will make a decision on your eligibility, either on the information you provide or by conducting a face-to face assessment with you.

It may take up to 28 days for them to make a decision after receiving your application, therefore it is important that this is returned as soon as possible.

**Please note, if sufficient evidence is not received to support the application, it will be refused. It is essential that the application form is completed fully by including the appropriate documents.**

Yn gywir / Yours sincerely

**Galw Gwynedd**

**Gweler canllawiau pellach ar gwblhau'r ffurflen hon yn y nodiadau canllaw atodol.**

(01766) 771000  
[bathodynglas@gwynedd.llyw.cymru](mailto:bathodynglas@gwynedd.llyw.cymru)  
[bluebadge@gwynedd.llyw.cymru](mailto:bluebadge@gwynedd.llyw.cymru)  
[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

Galw Gwynedd  
Uned 2, Parc Busnes Eryri  
Minffordd  
Penrhyndeudraeth  
Gwynedd  
LL48 6LD

f.8 Hydref2019



# Bathodyn Glas: Ffurflen Gais Unigolyn



## Rhif y Cais:

Edrychwch yn y tabl isod am gyfarwyddiadau ynghylch pa adrannau y mae angen i chi eu cwblhau a cyfeiriwch a'r canllawiau cefnogol i'ch cynorthwyo. **Mae yn bosib gwneud cais arlein: [gov.uk/apply-blue-badge](http://gov.uk/apply-blue-badge)**

Llenwch yr adrannau sy'n berthnasol i chi ac anfonwch dystiolaeth o'ch cyfeiriad, pwy ydych chi a'ch cymhwyster. Er mwyn i ni allu asesu eich cais yn iawn, gofynnwn i chi roi gwybodaeth hollol gywir i ni. Os byddwn yn derbyn gwybodaeth anghywir, mae'n bosib y bydd rhaid i ni wrtho drhoi bathodyn i chi.

**Gweler canllawiau pellach ar gwblhau'r ffurflen hon yn y nodiadau canllaw atodol.**

**Cofiwch y gallai gwneud ceisiadau twyllodrus neu gamddefnyddio bathodyn arwain at ddirwy o £1,000 ac/neu ildio bathodyn.**

Ticiwch ✓ yr opsiwn perthnasol	Cwblhewch Adrannau	
Pobl sydd wedi gofrestru yn ddall neu gyda nam difrifol are u golwg (os ydych yn rhannol ddall cwblhewch rhan 3 os gwelwch yn dda)	1, 2a & 8	
Pobl sy'n derbyn Cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (HRMCDLA – nid Lwfans Gweini)	1, 2b & 8	
Pobl sy'n derbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) (gweler lefel y dyfarniad yn y nodiadau canllaw)	1, 2c & 8	
Pobl sy'n derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel	1, 2d & 8	
Pobl sy'n derbyn budd-dal dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn	1, 2e & 8	
Os oes gennych chi anawsterau cerdded	1, 3 & 8	
Os oes gennych chi anawsterau cerdded sydd yn debygol o barhau o leiaf 12 mis	1, 4 & 8	
Os oes gennych gyflwr sy'n golygu na allwch gynllunio na dilyn taith	1, 5 & 8	
Os oes gennych nam yn y ddwy fraich	1, 6 & 8	
Os ydych yn cwblhau'r ffurflen ar ran ymgeiswyr sydd dan dair mlwydd oed	1, 7 & 8	

Er mwyn i Gyngor Gwynedd asesu eich cais am fathodyn glas, mae'n bosib y bydd rhaid i chi gyflawni asesiad symudedd gydag aseswr annibynnol.

Os bydd angen asesiad amoch, ymha iaith yr hoffech dderbyn yr asesiad?

<b>Cymraeg</b>		<b>Saesneg</b>		Arall _____
----------------	--	----------------	--	-------------

**Defnydd swyddfa yn unig – Dyddiad derbyn**

Llofnod Staff:

# Adran 1 – Gwybodaeth am yr ymgeisydd

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen ar ran ymgeisydd sydd dan 16 mlwydd oed neu rywun nad ydynt yn medru cwblhau'r ffurflen eu hunain, nodwch eu manylion yn y rhannau priodol a llofnodwch y ffurflen ar eu rhan.

## \* Rhannau gorfodol

Rhif cais		
Enw Cyntaf *		
Cyfenw *		
Dyddiad Geni (DD/MM/BBBB) *		
Rhif Yswiriant Gwladol *		
Cyfeiriad*		
Cód Post *		
Manylion Cyswllt *	Enw Cyswllt (os yn wahanol i'r ymgeisydd)	
	Prif Rhif Ffon	
	Ail Rhif Ffon	
	Cyfeiriad e-bost	
Cyfeiriad blaenorol, os bu'n wahanol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf		
Cód Post		
A oes gennych Fathodyn Glas ar hyn o bryd neu ydych chi erioed wedi cael Bathodyn Glas o'r blaen?	<b>Oes / Do</b>	<b>Nac Oes / Naddo</b>
Gan ba Gyngor Sir gawsoch chi'r bathodyn?		
Ar ba ddyddiad mae'r Bathodyn yn dod i ben?		
Nodwch 6 digid cyntaf y bathodyn cyfredol		


Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais am Fathodyn Glas a ydych yn dymuno derbyn hysbysiad gennym pan fydd eich bathodyn yn dod i ben?	<b>Ydw</b>	<b>Nac Ydw</b>
<b>Er mwyn derbyn hysbysiad mae rhaid i chi ddarparu rhif ffôn symudol dilys neu gyfeiriad e-bost</b>		

# Rhestr Gwirio Tystiolaeth

Byddwn yn gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth gyda'ch cais am fathodyn glas. Peidiwch ag anfon copïau gwreiddiol o ddogfennau drwy'r post gan na fydd modd i ni eu dychwelyd. Anfonwch lungopiâu. **Rhaid i unrhyw ddogfennau fod wedi'u dyddio o fewn y 12 mis diwethaf.** **Ni fydd modd i ni brosesu eich cais heb y dystiolaeth hon.**

<b>Gwiriad Preswyliaeth</b> Rydym angen gwirio eich bod yn breswlydd yn ardal ein hawdurdod lleol cyn i ni fedru prosesu eich cais. <b>Dewiswch un o'r dewisiadau isod a darparwch lungopi ble bo hynny'n berthnasol:</b>	✓
Rwyf yn rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio fy manylion personol ar gronfa ddata Treth Cyngor yr awdurdod lleol fel nad oes angen i mi gyflwyno prawf o'm cyfeiriad.	
Rwyf wedi atodi <b>llungopi</b> o fil y Dreth Gyngor ag arno fy enw a'm cyfeiriad, wedi'i ddyddio o fewn y 12 mis diwethaf.	
Rwyf wedi atodi <b>llungopi o lythyr dyfarnu budd-dal wedi'i ddyddio o fewn y 12 mis diwethaf</b> gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.	
Nid wyf yn talu'r Dreth Gyngor, rwyf dros 16 mlwydd oed ac rwyf yn rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio fy nghyfeiriad ar y gofrestr etholiadol.	
Rwyf yn gwneud cais ar ran ymgeisydd nad ydyw'n talu'r Dreth Gyngor ac sydd yn iau na 16 mlwydd oed. Rwyf yn rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio cofnodion ysgol i gadarnhau eu cyfeiriad. Nodwch enw'r ysgol y mae'r ymgeisydd yn ei mynychu: _____	

<b>Prawf o bwy ydych chi</b> Rydym angen gwirio pwy ydych chi er mwyn lleihau'r posibilrwydd o geisiadau twyllodrus am Fathodyn Glas. <b>Rhaid i chi atodi llungopi o un o'r eitemau a ganlyn fel prawf o bwy ydych chi:</b>	✓		
Trwydded Yrru Ddilys		Pasbort	
Tystysgrif Geni / Mabwysiadu		Tystysgrif Priodas / Ysgariad	
Tystysgrif Partneriaeth Sifil / Diddymu Partneriaeth Sifil		Bil Gwasanaethau	

<b>Llun ar gyfer y Bathodyn Glas</b>	
	<p><b>Atodwch llun diweddar o'r ymgeisydd.</b></p> <p>Bydd angen darparu llun i'w gynnwys ar gefn y Bathodyn Glas. Mae gofynnion yn debyg i llun pasbort ac mae well gofyn i rhywun tynnu llun ar eich rhan.</p> <p>Dylai'r llun fod:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• mewn lliw.</li><li>• wedi'i dynnu yn erbyn cefndir plaen a golau.</li><li>• yn cynnwys pen ac ysgwyddau</li><li>• yn dangos yr wyneb yn glir</li><li>• yn wir debygrwydd neu wedi'i dynnu o fewn y 6 mis diwethaf.</li></ul> <p><b>Sicrhewch fod enw'r ymgeisydd ar gefn y llun</b></p>

Ar ôl llenwi'r ffurflen anfonwch hi drwy'r post at:

Galw Gwynedd  
Uned 2  
Parc Busnes Eryri  
Minffordd  
Penrhyndeudraeth  
Gwynedd  
LL48 6LD

Neu gallwch fynd a'r ffurflen i:

- Siop Gwynedd, Ffordd y Cob, Pwllheli
- Siop Gwynedd, Cae Penarlâg, Dolgellau
- Siop Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon

# Rhestr Gwirio Tystiolaeth

Byddwn yn gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth gyda'ch cais am fathodyn glas. Peidiwch ag anfon copïau gwreiddiol o ddogfennau drwy'r post gan na fydd modd i ni eu dychwelyd. Anfonwch lungopiâu. **Rhaid i unrhyw ddogfennau fod wedi'u dyddio o fewn y 12 mis diwethaf.** **Ni fydd modd i ni brosesu eich cais heb y dystiolaeth hon.**

<b>Tystiolaeth i Gefnogi'r Cais – Meini Prawf Awtomatig</b>	✓
<b>Dewiswch un o'r opsiynau isod i gadarnhau eich bod wedi cynnwys y tystiolaeth perthnasol</b>	
<b>Pobl sy'n ddall (nam difrifol ar y golwg)</b> - eich Tystysgrif Dallineb neu Olwg Diffygiol (BP1) (3R) neu Dystysgrif Nam ar y Golwg (CVI) neu gyfwerth blaenorol wedi'i lofnodi gan Offthalmolegydd Ymgynghorol	
<b>Pobl sy'n derbyn Cyfradd Uwch Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (nid Lwfans Gweini)</b> - Rwyf yn rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio fy manylion personol i gadarnhau cymhwysedd ar gronfa ddata Searchlight DWP fel nad oes angen i mi gyflwyno prawf o'm hawl.	
<b>Pobl sy'n derbyn Taliad Annibniaeth Personol (PIP)</b> - Rwyf yn rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio fy manylion personol i gadarnhau cymhwysedd ar gronfa ddata Searchlight DWP fel nad oes angen i mi gyflwyno prawf o'm hawl.	
<b>Pobl sy'n derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel neu sydd yn derbyn budd-dal dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn.</b> - Os ydych chi'n derbyn y dyfarniad uchod, atodwch lungopi o lythyr wedi'i ddyddio o fewn y 12 mis diwethaf yn cadarnhau dyfarniad yr iawndal. Os ydych chi wedi colli'r llythyr hwn, gallwch gysylltu â'r asiantaeth ar y rhif ffôn ymholiadau a ganlyn: Rhadffôn <b>0800 169 22 77</b> .	

<b>Tystiolaeth i Gefnogi'r Cais – Meini Prawf Disgresiwn</b>	✓
<b>Dewiswch un o'r opsiynau isod i gadarnhau eich bod wedi cynnwys y tystiolaeth perthnasol</b>	
<b>Ymgeiswyr sydd â nam symudedd (Parhaol a dros dro)</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llythyr ymgynghorydd – crynodeb o drafodaeth yn dilyn apwyntiad</li> <li>• Adroddiad prognosis/triniaeth ffisiotherapi</li> <li>• Adroddiad therapi galwedigaethol/crynodeb o'r cyfarpar a ddarperir</li> <li>• Rhestr presgripsiynau amlroddadwy</li> <li>• Gwybodaeth gan Glinig Rheoli Poen/crynodeb o drafodaeth</li> <li>• Cynllun Gofal Asiantaeth Gofal</li> <li>• Cynllun triniaeth Nyrsys Ardal</li> </ul>	
<b>Ymgeiswyr sydd â chyflwr sy'n golygu na allwch gynllunio na dilyn taith.</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llythyr Seiciatrydd/Paediategydd/Ymgynghorydd – crynodeb o drafodaeth yn dilyn apwyntiad</li> <li>• Adroddiad Cryno Nyrs Arbenigol</li> <li>• Cynllun gofal Gofalwr Anabled Dysgu/Gofal Dydd/Byw â Chymorth</li> <li>• Cynllun Triniaeth Clinig Cof/Crynodeb o drafodaeth</li> <li>• Gweithwyr Cefnogi Iechyd Meddwl – adroddiad/cynllun gofal</li> <li>• Cynllun Datblygu Unigol / Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)</li> <li>• Cynllun/Crynodeb Triniaeth Iaith a Lleferydd</li> <li>• Crynodeb Therapi Galwedigaethol/Ffisiotherapi</li> </ul>	
<b>Ymgeiswyr dan dair mlwydd oed</b> - Atodwch lythyr gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi bod yn rhan o driniaeth eich plentyn (er enghraifft, eich paediategydd) yn nodi manylion cyflwr iechyd y plentyn a'r math o offer meddygol sydd ei angen arnynt, neu nodwch fanylion cyswllt y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol isod:	

## Adran 2 – Meini Prawf Awtomatig

Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer pobl a all fod yn gymwys ar gyfer Bathodyn Glas gan eu bod yn:

- **2a)** ddall (nam difrifol ar y golwg)
- **2b)** derbyn Cyfradd Uwch Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl;
- **2c)** derbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP);
- **2d)** derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel; neu
- **2e)** derbyn dyfarniad cymwys dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn.

2a) Pobl sy'n ddall (nam difrifol ar y golwg)	Ydw	Nac ydw
Ydych chi wedi'ch cofrestru'n ddall neu gyda nam difrifol ar eich golwg? <b>Os ydych chi wedi gofrestru yn rhannol ddall cwblhewch rhan 3 os gwelwch yn dda.</b>		
Os <b>YDW</b> , nodwch gyda pha awdurdod lleol yr ydych chi wedi cofrestru: _____		
Nodwch a ydych chi wedi atodi eich Tystysgrif Dallineb neu Olgw Diffygiol (BP1) (3R) neu Dystysgrif Nam ar y Golwg (CVI) neu gyfwerth blaenorol wedi'i lofnodi gan Offthalmolegydd Ymgynghorol	Ydw	Nac ydw

2b) Pobl sy'n derbyn Cyfradd Uwch Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (nid Lwfans Gweini)	Ydw	Nac ydw
A ydych chi'n derbyn Cyfradd Uwch Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl? <b>(nid Lwfans Gweini)</b>		
Os ydych chi'n derbyn Cyfradd Uwch Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl, plis nodwch ar dudalen 6 os byddwch yn fodlon rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio gronfa ddata Searchlight DWP er mwyn cadarnhau cymhwysedd. Os nad ydych chi <b>atodwch lungopi o'r llythyr sy'n cadarnhau eich hawl sydd wedi'i ddyddio yn ystod y 12 mis diwethaf.</b> Peidiwch â chynnwys y copi gwreiddiol.		

2c) Pobl sy'n derbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)	Ydw	Nac ydw
A ydych chi'n derbyn Taliad Annibyniaeth Personol yn unol â'r disgrifiadau isod?		
Rwyf yn bodloni'r disgrifiydd 'Symud o Gwmpas' ar gyfer Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (PIP) sy'n nodi na allaf sefyll neu na allaf gerdded ymhellach na 50 metr – <b>sgôr o 8 pwynt neu fwy</b>		
Rwyf yn bodloni'r disgrifiydd 'Cynllunio a dilyn teithiau' ar gyfer Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (PIP) sy'n nodi na allaf ddilyn llwybr taith gyfarwydd heb berson arall, ci cymorth neu cymhorthydd cyfeiriadu - <b>sgôr o 12 pwynt neu fwy.</b>		
Os ydych chi'n derbyn PIP, plis nodwch ar dudalen 6 os byddwch yn fodlon rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio gronfa ddata Searchlight DWP er mwyn cadarnhau cymhwysedd. Os nad ydych chi <b>atodwch lungopi o'r llythyr sy'n cadarnhau eich hawl sydd wedi'i ddyddio yn ystod y 12 mis diwethaf sy'n dangos y sgôr ar gyfer pob gweithgaredd yn glir.</b> Peidiwch â chynnwys y copi gwreiddiol.		

2d) Pobl sy'n derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel	Ydw	Nac ydw
A ydych chi'n derbyn yr Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel? <b><u>atodwch lungopi o lythyr wedi'i ddyddio o fewn y 12 mis diwethaf</u></b>		

2e) Pobl sy'n derbyn budd-dal dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn.	Ydw	Nac ydw
A ydych chi wedi derbyn budd-dal mewn lwmp swm dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn o fewn lefelau tariff 1 – 8 (cynwysedig) ac wedi cael eich ardystio gan y SPVA fel rhywun sydd â nam parhaol a sylweddol sy'n achosi i chi fethu â cherdded neu gael anawsterau sylweddol i gerdded?		
A ydych chi wedi derbyn tariff 6 – Anhwylder Meddyliol Parhaol Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog?		
Os ydych chi'n derbyn y dyfarniad uchod, <b>atodwch lungopi o lythyr wedi'i ddyddio o fewn y 12 mis diwethaf yn cadarnhau dyfarniad yr iawndal.</b> Os ydych chi wedi colli'r llythyr hwn, gallwch gysylltu â'r asiantaeth ar y rhif ffôn ymholiadau a ganlyn: Rhadffôn <b>0800 169 22 77.</b>		

**Os ydych chi wedi ateb "Ydw" i unrhyw un o'r cwestiynau yn Adran 2, cwblhewch y datganiadau yn Adran 8.**

## Adran 3 – Meini Prawf Disgresiwn Cwestiynau i ymgeiswyr sydd â nam symudedd

Nodwch na fyddwch yn cymhwyso am Fathodyn Glas dan y meini prawf hyn oni bai eich bod chi, neu'r person yr ydych yn gwneud cais ar eu rhan, dros ddyflwydd oed ac yn dioddef o amhariad **parhaol a sylweddol** sy'n golygu **na allwch** gerdded neu eich bod yn cael **anhawster sylweddol i gerdded** (gweler rhan 3 o'r nodiadau canllaw ar gyfer diffiniad o beth yw anhawster sylweddol i gerdded).

**Ble mae'n bosib byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ar ffurf llythyr / dogfennaeth gan weithwyr iechyd (ddim meddyg teulu) er mwyn cefnogi'ch cais. Gweler ein rhestr gwirio tystiolaeth ar dudalen 6 sydd yn amlinellu pa fath o dystiolaeth fydd yn bosib cynnwys i gefnogi eich cais. Sylwer nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr. [Heb y dystiolaeth ategol yma ni allwn asesu'r cais.](#)**

1 IECHYD AG ANABLEDD		
A yw eich cyflwr neu eich nam yn barhaol?	Ydy	Nac ydy
A ydych chi wedi cael ocsigen ar bresgripsiwn I gefnogi eich anghenion symudedd o ddydd I ddydd? Os YDYCH, disgrifiwch sut a pha bryd ydych angen ei ddefnyddio	Ydw	Nac ydw
<p>Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ar ffurff presgripsiwn neu ddanfoneb</p>		

Disgrifiwch eich anawsterau symudedd		
Ydych chi'n cael therapy rheolaidd, fel Ffisiotherapi? Os YDYCH, rhowch fanylion isod.ca	Ydw	Nac ydw
Ydych wedi cael unrhyw driniaeth lawfeddygol erioed, neu oes unrhyw driniaeth o'r fath ar y gweill? Os YDYCH, rhowch fanylion isod.	Do	Naddo



Ydych wedi cael neu yn cael codymau? Os <b>YDYCH</b> , eglurwch pa mor aml a beth sy'n achosi'r codymau hyn.	<b>Ydw</b>	<b>Nac Ydw</b>

<b>2.SYMUDEDD</b>					
<b>Ydych yn defnyddio unrhyw offer / gyfarpar i'ch helpu i gerdded?</b>					
Ticiwch ✓ <b>BOB</b> dewis sy'n berthnasol i chi ag os ydych yn eu defnyddio'r tu mewn / neu'r tu allan:					
	<b>Tu Mewn</b>	<b>Tu Allan</b>		<b>Tu Mewn</b>	<b>Tu Allan</b>
Cadair Olwyn Drydan			1 neu 2 Bagl Penelin		
Cadair Olwyn			1 neu 2 Ffon Gerdded		
Sgwters			Cefnogaeth Dodrefn / Person		
Coesau Prosthsetig			Bres Coes		
Ffram Gerdded			Arall (rhowch fwy o fanylion)		

<b>1g) A yw'r offer / cyfarpar hwn wedi cael ei roi i chi ar bresgripsiwn gan y GIG?</b>	<b>Ydy</b>	<b>Nac ydy</b>

**Bydd angen i chi roi tystiolaeth ar ffurf presgripsiwn / danfoneb**

<b>Pa mor bell allwch chi gerdded? (Mae 50 metr tua'r un pellter á hanner cae pél-droed)</b>	<b>✓</b>
Ticiwch ✓ <b>un</b> datganiad sy'n berthnasol i chi.	
Methu cerdded, neu yn cael anhawster difrifol i gerdded hyd at 50 metr heb unrhyw gymorthyddion cerdded.	
Medru cerdded hyd at 50 metr gyda neu heb gymorthyddion cerdded ond yn dioddef poen neu anhawster difrifol, wrth gerdded neu ar ôl cerdded.	
Medru cerdded hyd at 50 metr gyda neu heb gymorthyddion cerdded ond heb unrhyw boen neu anhawster difrifol, wrth gerdded neu ar ôl cerdded	

<b>Beth yw'r effaith yn ystod neu'n dilyn teithiau y tu allan i'r cartref?</b>	<b>✓</b>
Ticiwch ✓ <b>pob</b> opsiwn sy'n berthnasol i chi	
Adferiad estynedig	
Poen estynedig ac angen meddyginiaeth	
Diffyg anadl difrifol	
Eich gorfodi i arafu i gyflymder isel iawn	
Mwy o ansefydlogrwydd neu godymau	

<b>Disgrifiwch rhywle y gallwch gerdded yna ac yn ôl?</b> Byddwch yn benodol a defnyddiwch enw lleoliad neu rhifau tai e.e “o fy nhŷ i Tesco” <b>Nodwch hefyd pa môr hir mae hyn yn gymryd i chi.</b> e.e deg munud.										
<b>Disgrifiwch am ba mor hir y gallwch sefyll heb fod angen eistedd i lawr.</b> Os ydych yn cael problemau wrth sefyll, disgrifiwch pan na allwch sefyll am hir.										
<b>Disgrifiwch sut rydych yn dygymod â stepiau a grisiau</b>										
Tu Mewn:										
Tu Allan:										
<b>Ydych yn dioddef unrhyw boen wrth gerdded? Os felly, ar raddfa 0 i 10 rhowch gylch o amgylch y rhif perthnasol sy'n cadarnhau lefel y boen rydych yn dioddef.</b> 0 ydy ddim poen a 10 yw poen ddifrifol.										
<b>Orffwys:</b>										
0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
<b>Cerdded:</b>										
0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
<b>Faint mae'n cymryd i'ch poen leihau yn dilyn stopio gerdded?</b>										
Llai na 5 munud		Rhwng 5 & 10 munud		Rhwng 10 & 20 munud						
Os mwy nag 20 munud, manylwch isod.										
<b>Ydych yn dioddef problemau anadlu wrth gerdded? Os YDYCH, disgrifiwch sut mae hyn yn effeithio eich gallu i gerdded a nodwch pa mor bell galwch gerdded mewn metrau neu llathenni.</b>										
				<b>Ydw</b>	<b>Nac Ydw</b>					
<b>O byddwch angen stopio, faint o amser mae'n cymryd i chi ddod at eich hyn?</b>										
Llai na 5 munud		Rhwng 5 & 10 munud		Rhwng 10 & 20 munud						
Os mwy nag 20 munud, manylwch isod.										

**A ydych chi angen cefnogaeth gan berson arall er mwyn mynd i fewn ac allan o gerbyd ar gyfer pob taith?** Os Ydw ticiwch ✓ un dewis isod:

Person bob ochr i mi		Un person	
----------------------	--	-----------	--

**Disgrifiwch** pam a sut maent yn helpu

**A ydych chi'n cymryd meddyginiaeth yn rheolaidd i gynorthwyo â'ch symudedd?**  
**Nodwch enw a'r ddogyn y feddyginiaeth a ddarparu tystiolaeth ar ffurf presgripsiwn.**

--

<b>A ydych chi angen defnyddio mewnanadlydd, nebiwlydd neu chwistrellwyd GTN (Inhaler, nebuliser o'r GTN Spray) ar gyfer pob taith?</b>	<b>Ydw</b>	<b>Nac Ydw</b>

**3.GWEITHGAREDDAU BYWYD BOB DYDD**

**Ymha fath o eiddo rydych chi'n byw.**

Tŷ		Fflat		Fflat Deulawr		Byngalo	
----	--	-------	--	---------------	--	---------	--

**Ar ba lawr byddwch yn cysgu?**

Llawr Isaf		Llawr Cyntaf		Arall	
------------	--	--------------	--	-------	--

<b>A oes gennych reiliau i'ch cynnal?</b>	<b>Oes</b>		<b>Nac Oes</b>	
---	------------	--	----------------	--

<b>A oes grisiau yn arwain at eich fflat? Os OES, sawl set o risiau?</b>	<b>Oes</b>		<b>Nac Oes</b>	
--	------------	--	----------------	--

**Disgrifiwch sut byddwch yn cael mynediad i'ch cartref.**

--

<b>A oes gennych unrhyw addasiadau neu gyfarpar arbenigol yn eich cartref ar hyn o bryd? Os OES manylwch isod math y gyfarpar ac addasiadau sydd gennych.</b>	<b>Oes</b>	<b>Nac Oes</b>

--

<b>Ydych yn cael cymorth a gofal personol, fel ymolchi? Os YDYCH, disgrifiwch pa help fyddwch yn ei dderbyn.</b>	<b>Ydw</b>	<b>Nac Ydw</b>
<b>Ydych yn cael help á thasgau yn y cartref fel glanhau a choginio? Os YDYCH, disgrifiwch ba help fyddwch yn ei gael.</b>	<b>Ydw</b>	<b>Nac Ydw</b>
<b>Ydych yn cael help i siopa? Disgrifiwch sut fyddwch yn gwneud eich siopa</b>	<b>Ydw</b>	<b>Nac Ydw</b>
<b>A ydych chi'n derbyn unrhyw gefnogaeth arall, er enghraifft, Lwfans Gweini (<i>Attendace Allowance</i>), gwasanaeth danfon prydau bwyd, gwasanaeth gofal neu wasanaethau ychwanegol, gan gynnwys cefnogaeth gan y teulu? Os YDYCH, nodwch fanylion pellach</b>	<b>Ydw</b>	<b>Nac Ydw</b>
<b>A hoffech ddweud wrthym am unrhyw beth arall i gefnogi eich cais?</b>		

**Os ydych wedi cwblhau Adran 3, mae'n rhaid i chi gwblhau y datganiadau yn Adran 8**

## Adran 4 – Meini Prawf Disgresiwn

### Cwestiynau i ymgeiswyr sydd ag anawsterau cerdded sydd yn debygol o barhau o leiaf 12 mis.

Cofiwch, yr unig rai sy'n gymwys am fathodyn glas o dan y meini prawf yma yw unigolion dros 3 mlynedd oed gyda nam sylweddol dros dro sy'n golygu na allant gerdded neu'n cael anhawster wrth gerdded: a nam sy'n debygol o barhau am y 12 mis nesaf.

Ble mae'n bosib byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ar ffurf llythyr / dogfennaeth gan weithwyr iechyd (ddim meddyg teulu) er mwyn cefnogi'ch cais. Gweler ein rhestr gwirio tystiolaeth ar dudalen 6 sydd yn amlinellu pa fath o dystiolaeth fydd yn bosib cynnwys i gefnogi eich cais. Sylwer nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr. [Heb y dystiolaeth ategol yma ni allwn asesu'r cais.](#)

1 1 IECHYD AC ANABLEDD				
Nodwch y termau meddygol ar gyfer y cyflwr / nam sydd gennych yn ôl y diagnosis (os ydych yn gwybod y termau):				
O'r brawddegau isod, dewiswch bob un sy'n disgrifio'r diagnosis a gawsoch ar gyfer eich cyflwr, a pha mor hir mae'n debygol o barhau.				
✓	Cyflwr / Nam			Amcangyfrif o'r amser gwella
	Rwy'n gwella o doriad cymhleth i'r goes, sydd o bosibl yn cael ei reoli â chyfarpar sefydlogi allanol ( <i>external fixtures</i> )			
	Rwy'n cael therapi er mwyn gwella o strôc neu anaf i'r pen sydd wedi cael effaith ar fy symudedd			
	Rwy'n cael therapi er mwyn gwella o drawma i'r asgwrn cefn, sydd wedi achosi colli symudedd yn y coesau			
	Rwy'n cael ymyrraeth feddygol, e.e. i drin canser, sy'n cael effaith ar fy symudedd			
	Mae gennyf amhariadau difrifol ar y goes, ac rwy'n aros neu wedi cael cymal newydd (e.e. un / dwy ben-glin newydd, un / dwy glun newydd ac ati)			
	Arall, disgrifiwch:			
<p><b>Rhowch fanylion unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol rydych chi wedi'i weld a fyddai'n gallu cefnogi eich cais. Gall y rhain gynnwys:</b> Llawfeddyg, Therapyddion Galwedigaethol, Tîm Adsefydlu Gwasanaethau Cymdeithasol neu Weithiwr Iechyd Proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol, e.e. ffisiotherapydd, Nyrs Macmillan neu eraill sy'n cyfrannu at ofal claf. <b>Bydd angen i chi hefyd roi tystiolaeth ar ffurf llythyr / dogfennaeth gan un o'r gweithwyr iechyd sydd wedi'u henwi er mwyn cefnogi'r cais. Heb y dystiolaeth cefnogi yma ni allwn asesu'r cais.</b></p>				
Enw	Teitl y swydd	Ysbyty / Canolfan Iechyd	Rhif Ffôn	Dyddiad yr apwyntiad diwethaf

**Os ydych wedi cwblhau Adran 4, mae'n rhaid i chi gwblhau y datganiadau yn Adran 8**

## Adran 5 – Meini Prawf Disgresiwn

### Cwestiynau i ymgeiswyr sydd â chyflwr sy'n golygu na allwch gynllunio na dilyn taith.

Cofiwch, yr unig ymgeiswyr sy'n gymwys am fathodyn glas o dan y meini prawf yma yw unigolion sydd â nam gwybyddol (*cognitive impairment*); a sy'n methu cynllunio neu ddilyn taith, i'r fath raddau nes eu bod angen goruchwyliaeth / rhywun i ofalu amdanynt drwy'r amser.

Ble mae'n bosib byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ar ffurf llythyr / dogfennaeth gan weithwyr iechyd (ddim meddyg teulu) er mwyn cefnogi'ch cais. Gweler ein rhestr gwirio tystiolaeth ar dudalen 6 sydd yn amlinellu pa fath o dystiolaeth fydd yn bosib cynnwys i gefnogi eich cais. Sylwer nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr. [Heb y dystiolaeth ategol yma ni allwn asesu'r cais.](#)

<b>Nodwch y termau meddygol ar gyfer y cyflwr / nam sydd gennych yn ôl y diagnosis (os ydych yn gwybod y termau):</b>				
<b>Rhowch fanylion a llythyrau gan unrhyw arbenigwyr iechyd perthnasol yr ydych wedi eu gweld yn ystod y 12 mis diwethaf a fyddai'n gallu cefnogi eich cais.</b>				
Enw	Teitl y swydd	Ysbyty/Canolfan Iechyd	Rhif Ffôn	Dyddiad y cawsoch eich gweld ddiwethaf
<b>Ydych chi ar unrhyw Gofrestr Anabledd Dysgu gyda'r Awdurdod Lleol? Nodwch pa gofrestr:</b>				
<b>Ydych chi'n mynychu Clinig Cof? Rhowch gerdyn neu lythyr apwyntiad i gefnogi eich cais.</b>				
<b>Ydych chi'n medru cynllunio a dilyn llwybr ar siwrne gyfarwydd heb oruchwyliaeth gyson? Er enghraifft, teithio i dŷ ffrind cyfagos neu siop leol heb neb hefo chi. Os NA darparwch manylion.</b>				
<b>Ydych chi'n derbyn unrhyw fudd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl? Er enghraifft, elfen ofal neu elfen symudedd. Os YDYCH, darparwch lungopi ardystiedig o'r llythyr dyfarnu er mwyn cefnogi eich cais. Os ddim nodwch os ydych yn derbyn unrhyw fudd-daliad arall.</b>				

**Os ydych wedi cwblhau Adran 5, mae'n rhaid i chi gwblhau y datganiadau yn Adran 8**

## Adran 6 – Meini Prawf Disgresiwn

### Cwestiynau i ymgeiswyr gydag amhariad yn y ddwy fraich

Mae'r cwestiynau hyn wedi ar gyfer pobl sy'n:

- Gyrru cerbyd yn rheolaidd, sydd ag nam yn y ddwy fraich ac sy'n methu â defnyddio neu sy'n cael anhawster sylweddol i ddefnyddio offer parcio fel peiriant tocyn gyda rhwystr (*ticket barriers*) a pheiriannau talu.

Wrth wneud cais dan y meini prawf yma, cofiwch mai dim ond ymgeiswyr sy'n gyrru'r cerbyd sy'n cael defnyddio'r bathodyn.

A ydych chi'n gyrru'n rheolaidd?	Ydw	Nac Ydw
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
A oes gennych chi nam yn y ddwy fraich?	Oes	Nac oes
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Disgrifiwch eich cyflwr / nam meddygol:		
A ydych chi'n METHU defnyddio , neu'n cael anhawster sylweddol wrth defnyddio offer parcio?	Ydw	Nac Ydw
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Os <b>YDW</b> , disgrifiwch yr anawsterau sydd gennych wrth ddefnyddio peiriannau tocyn gyda rhwystr ( <i>ticket barriers</i> ) a pheiriannau talu ac arddangos.		
A ydych chi'n gyrru cerbyd sydd wedi'i addasu'n arbennig?	Ydw	Nac ydw
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Os <b>YDW</b> , disgrifiwch sut mae'r cerbyd wedi'i addasu ar eich cyfer, ac rhowch lungopi o fanylion eich yswiriant i gadarnhau'r addasiad hwn.		
Ydi'ch eich trwydded yrru yn amodol i'r cyfyngiadau yn sgil eich amhariad? Os <b>YDW</b> , atodwch lungopi o'ch trwydded.	Ydi	Nac Ydi
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhif eich Trwydded Yrru	<input type="text"/>	

**Os ydych chi wedi cwblhau Adran 6, cwblhewch y datganiadau yn Adran 8.**

## Adran 7 – Meini Prawf Disgresiwn

### Cwestiynau ar gyfer ymgeiswyr dan dair mlwydd oed

Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer plant dan dair mlwydd oed a all fod yn gymwys am Fathodyn Glas oherwydd:

- bod ganddynt gyflwr sy'n gofyn am gario offer/cyfarpar meddygol mawr/trwm bob amser; neu
- mae'n rhaid i'r plentyn gael eu gadw yn agos at cerbyd o ganlyniad i gyflwr fel bod posibilrwydd iddynt, pe bai angen, gael eu trin y cerbyd neu gael eu cludo yn y cerbyd hwnnw yn gyflym i le lle gallent dderbyn triniaeth.

A ydych chi'n gwneud cais ar ran plentyn o dan dair mlwydd oed sydd â chyflwr sy'n gofyn am gario offer/cyfarpar meddygol mawr/trwm bob amser?	Ydw	Nac Ydw
Os <b>YDW</b> , nodwch y math o offer sydd ei angen:		

A ydych chi'n gwneud cais ar ran plentyn o dan dair mlwydd oed sydd â chyflwr sy'n golygu fod rhaid iddynt fod yn agos at gerbyd bob amser fel bo modd, os oes angen, eu trin am y cyflwr hwnnw yn y cerbyd neu gael eu cludo yn y cerbyd yn gyflym i fan ble y gallent dderbyn triniaeth?	Ydw	Nac Ydw
Os <b>YDW</b> , disgrifiwch gyflwr meddygol y plentyn:		

Allwch chi amcangyfrif pa mor aml y byddant angen triniaeth?

Os ydych chi wedi ateb <b>YDW</b> i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, <b>atodwch lythyr gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi bod yn rhan o driniaeth eich plentyn</b> (er enghraifft, eich paediatregydd) yn nodi manylion cyflwr iechyd y plentyn a'r math o offer meddygol sydd ei angen arnynt, neu nodwch fanylion cyswllt y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol isod:

**Os ydych chi wedi cwblhau Adran 7, cwblhewch y datganiadau yn Adran 8.**



## Adran 8 – Datganiadau a Llofnodion

### 8a) Datganiadau gorfodol ynghylch y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi a'r broses wneud cais.

Darllenwch y datganiadau a ganlyn yn drylwyr. Bydd angen i chi llofnodi Adran **8b)** i ddangos eich bod wedi darllen a deall pob datganiad. Gallai methu rhoi llofnod olygu na fyddwn yn gallu ystyried eich cais. Gallai rhoi gwybodaeth dwyllodrus arwain at erlyniad a dirwy.

#### Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Rydym yn casglu eich manylion personol er mwyn prosesu eich cais. Rydym angen eich gwybodaeth er mwyn cyflawni ein cyfrifoldeb statudol i roi bathodynau glas.

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth efo adrannau'r llywodraeth, a lle bo angen, Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol Able 2 ac awdurdodau lleol eraill.

Rydym yn cadw eich gwybodaeth am 4 blynedd o ddyddiad eich cais.

Am fwy o fanylion, ewch i'n Datganiad Preifatrwydd ar ein gwefan.

Fel awdurdod cyhoeddus, mae gofyn cyfreithiol ar Gyngor Gwynedd i warchod yr arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu. Efallai byddwn yn rhannu'r wybodaeth a rowch i ni gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus, er mwyn atal a chanfod twyll. Am wybodaeth bellach, ewch i <http://www.gwynedd.llyw.cymru/DataMatching>

Rwyf yn cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod y manylion yr wyf wedi'i roi yn gyflawn ac yn gywir. Rwyf yn sylweddoli y gallwch gymryd camau yn fy erbyn os wyf wedi darparu gwybodaeth ffug yn y ffurflen gais hon.
Rwyf yn deall fod yn rhaid i mi roi gwybod i'm hawdurdod lleol ar unwaith ynghylch unrhyw newidiadau a allai effeithio ar fy hawl i gael bathodyn.
Rwyf yn cadarnhau bod y llun yr wyf wedi'i gyflwyno â'r cais o wir debygrwydd i mi.
Rwyf yn deall, os yw fy nghais yn llwyddiannus, nad oes hawl gan neb arall i ddefnyddio fy methodyn glas i er eu budd eu hunain ac y dylwn ddefnyddio'r bathodyn glas yn unol â rheolau'r cynllun fel sydd wedi'u nodi yn y daflen "Y Cynllun Bathodyn Glas – Hawliau a Chyfrifoldebau yng Nghymru" fydd yn cael ei anfon ataf gyda'r bathodyn. <b>Gallai ceisiadau twyllodrus neu gamddefnyddio bathodyn arwain at ddirwy o £1,000 ac/neu ildio'r bathodyn.</b>
Rwyf yn deall mai dim ond un bathodyn glas dilys ddylai fod gennyf ar unrhyw adeg.
Rwyf yn deall y byddaf yn dychwelyd fy methodyn unwaith y bydd wedi dod i ben.
Rwyf yn cadarnhau nad oes gennyf Fathodyn Parcio Glas i Berson Anabl ar hyn o bryd sydd wedi cael ei roi i mi gan awdurdod lleol gwahanol.
Rwyf yn deall y byddaf yn talu unrhyw gostau fy hun os bydd gofyn i mi, yr Awdurdod Lleol neu'r Gwasanaeth Cyngori Annibynnol gysylltu ag unrhyw arbenigwr iechyd perthnasol (nid fy Meddyg Teulu) os oes angen tystiolaeth bellach ar gyfer fy nghais.
Ble bo angen gwybodaeth bellach, deallaf y gallwn fod angen cymryd rhan mewn cyfweiliad wyneb-ynwyneb ag aelod o'r tîm Bathodyn Glas er mwyn pennu fy nghymwysterau am Fathodyn Glas.

<b>8b) Eich llofnod yn erbyn y datganiadau</b>	
Eich Llofnod	
Printiwch eich enw	
Dyddiad y cais	
<b>Os ydych chi'n gwneud cais ar ran person arall, nodwch eich perthynas â nhw.</b>	✓
Gwarcheidwad Swyddogol	
Pŵer Atwrnai	
Cyfrifoldeb Rhiant	
Arall (Disgrifiwch) _____	

**Os ydych chi wedi gwneud cais am Fathodyn Glas ar ran rhywun arall, rhaid i chi fod yn ymwybodol y gallai defnyddio'r Bathodyn Glas yn groes i'r rheolau sy'n llywodraethu'r cynllun arwain at erlyniad, dirwy a thynnu'r Bathodyn Glas yn ôl.**

**\*\* Cwblhewch y rhestr gwirio tystiolaetha ar dudalennau 5 & 6 er mwyn sicrhau eich bod wedi cynnwys y dogfennau angenrheidiol gyda'r cais. \*\***

## **Nodiadau Canllaw – Pa adrannau o’r ffurflen gais ddylwn i eu cwblhau?**

### **Adran 1 – Gwybodaeth amdanoch chi**

RHAID i bob ymgeisydd am Fathodyn Glas gwblhau’r adran hon. Mae pob maes gorfodol wedi’u nodi â seren (\*).

Cofiwch mai dim ond hyd at 20 nod (*character*) y gall ‘enwau cyntaf’, ‘cyfenw’ a’r ‘cyfenw pan gawsoch eich geni’ fod oherwydd cyfyngiadau argraffu bathodynnau.

Os ydych wedi derbyn Bathodyn Glas o’r blaen a’i fod ar fin dod i ben, mae’n dal angen i chi ddarparu tystiolaeth gyfredol i gadarnhau eich bod yn gymwys. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais mewn da bryd, o leiaf ddau fis cyn i’r bathodyn ddod i ben gan ei bod yn drosedd defnyddio bathodyn sydd wedi dod i ben, hyd yn oed os ydych chi wedi gwneud cais am un newydd. Cyfrifoldeb deilydd y bathodyn yw sicrhau ei fod yn ddilys.

### **Prawf o bwy ydych chi a’ch preswyliaeth**

- copi o un o’r eitemau a ganlyn gyda’ch cais:
- tystysgrif geni/ Rhaid cyflwyno mabwysiadu
- tystysgrif priodas/ysgariad
- tystysgrif partneriaeth sifil/diddymu partneriaeth sifil
- trwydded yrru ddilys
- pasbort

## Llun

Gellir cyflwyno'r llun yn electronig i'r awdurdod lleol ar ffurf jpg. Rhaid i'r llun gael diffiniad cryf rhwng yr wyneb a'r cefndir a rhaid iddo fod, *os yw'n ymarferol bosib*:

- yn ffotograff lliw;
- yn 45 milimetr o uchder a 35 milimetr o led (maint pasbort);
- wedi'i dynnu **o fewn mis** i'r dyddiad y cais;
- wedi'i dynnu yn erbyn cefndir llwyd golau neu hufen;
- heb ei ddifrodi;
- heb "lygaid coch", cysgodion, adlewyrchiad neu olau ar y sbectol;
- yn llun o ben y deilydd i gyd (heb unrhyw berson arall i'w weld nac unrhyw orchudd, oni bai ei fod yn cael ei wisgo ar sgil crefydd neu am resymau meddygol);
- wynebu ymlaen gan edrych yn syth i'r camera;
- heb unrhyw beth yn gorchuddio'r wyneb;
- gyda mynegiad niwtral a'r geg ar gau;
- gyda'r llygaid ar agor ac yn gwbl weledol (heb sbectol haul na sbectol arlliwedig (gyda tint) ac heb wallt na fframiau sbectol ar ffordd y llygaid);
- mewn ffocws siarp ac yn glir;
- wedi'i argraffu'n broffesiynol neu mewn fformat digidol;
- gwir debygrwydd, heb ei addasu.

## Cyfeiriad

Dylai'r prawf fod ar ffurf copi o fil y Dreth Gyngor gyda'ch enw a'ch cyfeiriad arno.

Ni fydd angen i chi gyflwyno eich bil Treth Gyngor os ydych chi wedi ticio'r blwch priodol yn Adran 1, sy'n rhoi eich caniatâd i'r awdurdod lleol wirio eich cyfeiriad ar eu cofnodion Treth Gyngor neu ar y gofrestr etholiadol.

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen gais ar ran rhywun sydd dan 16 mlwydd oed, dylech roi eich caniatâd i'r awdurdod lleol i wirio cofnodion ysgol i gadarnhau eu cyfeiriad.

## Ffi Cyflwyno Bathodyn Glas

Nid oes unrhyw ffi'n am Fathodyn Glas tro cyntaf; fodd bynnag, gellir codi ffi o hyd at £10 am fathodynau pan fo'r gwreiddiol wedi'i gollu, ei ddwyn neu ei ddifrodi i'r fath raddau fel na all gael ei ddarllen gan bobl fydd yn gwirio'r bathodyn pan fydd yn cael ei ddefnyddio i barcio neu ar gyfer consesiynau eraill.

Gall eich awdurdod lleol ofyn bod manylion cerdyn credyd/debyd ac/neu siec yn cael eu cynnwys gyda'r ffurflen gais yn barod ar gyfer gwneud taliad os fydd eich cais yn llwyddiannus. Ni fydd eich awdurdod lleol yn cyflwyno Bathodyn Glas i ymgeiswyr llwyddiannus oni bai fod taliad yn cael ei dderbyn am y ffi sy'n daladwy.

## **Adran 2 – Ymgeiswyr Meini Prawf Awtomatig**

Byddwch yn gymwys am fathodyn yn awtomatig os ydych yn hŷn na dwyflwydd oed, eich bod yn bodloni gwiriadau ynghylch pwy ydych chi a'ch preswyliaeth, ac yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf cymhwyster yn Adran 2.

Bydd angen i chi gyflwyno ddogfennaeth briodol i brofi eich cymhwyster dan un o'r meini prawf. Mae'r lwfans tâl yn enghraifft o hyn. Bydd angen derbyn y prawf yam ar ffurf llungopi.

### **Adran 2a**

Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi'ch cofrestru'n ddall (nam ar y golwg). Gofynnir i chi nodi enw'r awdurdod lleol yr ydych wedi cofrestru â hwy. Mewn sawl achos, byddwch wedi'ch cofrestru gyda'r un awdurdod ble yr ydych yn gwneud cais am fathodyn. Os nad yw hyn yn wir yn eich achos chi, bydd awdurdodau lleol yn gwirio gyda'r awdurdod yr ydych wedi cofrestru ag.

Yr hysbysiad ffurfiol cyfredol sydd ei angen i gofrestru'n ddall (nam ar y golwg) yw Tystysgrif Dallineb neu Olwg Diffygiol (BP1 (3R)), neu Dystysgrif Nam ar y Golwg (CVI), wedi'i lofnodi gan Offthalmolegydd Ymgynghorol, sy'n nodi eich bod yn ddall (nam ar y golwg). Mae dogfennau cyfwerth blaenorol hefyd yn dderbyniol, fodd bynnag, mae cofrestru'n elfen wirfoddol.

### **Adran 2b**

Cwblhewch yr adran hon os ydych chi'n derbyn Cyfradd Uwch Eifen Symudedd Lwfans Byw i'r Anabl (HRMCDLA). Byddwch wedi derbyn llythyr dyfarnu yn eich hysbysu eich bod yn gymwys i'r taliadau gan y Gwasanaeth Pensiwn, Anabledd a Gofalwyr (PDCS). Hefyd, byddwch wedi derbyn llythyr graddio blynyddol yn nodi eich hawl. Gellir defnyddio'r llythyr graddio hwn fel prawf eich bod yn derbyn HRMCDLA os yw eich llythyr dyfarnu yn hŷn na 12 mis oed. Os ydych chi wedi colli eich llythyr dyfarnu HRMCDLA neu'ch llythyr graddio, cysylltwch â'r PDCS am lythyr dyfarnu cyfredol fel a ganlyn:

- Ffôn: 0345 712 3456
- Ffôn Testun: 0345 722 4433
- E-bost: DCPU.Customer-Services@dwp.gsi.gov.uk

Mae'r llinell gymorth ar agor rhwng 7.30am a 6.30pm ddydd Llun i ddydd Gwener, a gellir dod o hyd i fanylion pellach yn:

[www.gov.uk/disability-benefits-helpline](http://www.gov.uk/disability-benefits-helpline)

Bydd Bathodynau Glas a gyflwynir dan yr amgylchiadau hyn yn cael eu cyflwyno am hyd y cyfnod pan fo HRMCDLA yn cael ei ddyfarnu, neu am dair blynedd, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf.

## **Adran 2c**

Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi derbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ar y lefel sy'n cael ei disgrifio fel:

- Gweithgarwch Symudedd 1, disgrifydd f; neu
- Gweithgarwch Symudedd 2, disgrifydd c, d, e neu f.

Mae Gweithgarwch Symudedd 1 yn ymwneud â 'Chynllunio a dilyn taith'. *Disgrifydd f* yw'r diffiniad o fewn y gweithgaredd sy'n cael ei ddyfarnu i berson sy'n cael yr anhawster mwyaf yn dilyn unrhyw lwybr neu daith heb unrhyw berson arall, ci cymorth neu gymhorthydd cyfeiriadu.

Mae Gweithgarwch Symudedd 2 yn ymwneud â 'Symud o Gwmpas'. *Disgrifydd c* yw'r diffiniad o fewn y gweithgaredd ble mae person yn cael anhawster sefyll a symud, a methu symud mwy na 50 metr. Mae *disgrifydd d* ac *e* yn adnabod lefelau cynyddol o anhawster wrth symud o gwmpas gydag *f* yn adnabod pobl sydd â'r anawsterau mwyaf naill ai'n sefyll neu'n symud mwy na metr gyda chymorth neu heb gymorth.

Dylech fod wedi derbyn llythyr dyfarniad gyda manylion am eich dyfarniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rhaid i chi atodi llungopi o'r llythyr hwn.

## **Adran 2d**

Cwblhewch yr adran hon os ydych chi'n derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel (WPMS). Dylech fod wedi derbyn llythyr swyddogol gan Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn dangos eich bod yn derbyn y grant. Rhaid i chi atodi llungopi y llythyr hwn fel prawf o'ch hawl.

Os ydych chi wedi colli'r llythyr hwn, yna gellir cysylltu â'r asiantaeth hon drwy'r rhif ymholiad rhadffôn a ganlyn: 0808 191 4218.

## **Adran 2e**

Cwblhewch yr adran hon os ydych yn derbyn budd-dal lwmp swm dan Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn o fewn lefelau tariff 1-8 (cynwysedig) ac wedi cael eu hasesu a'u hardystio gan Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn cadarnhau lefel eich dyfarniad ac yn cadarnhau eich bod wedi'ch asesu fel rhywun sydd ag amhariad parhaol neu sylweddol sy'n golygu na allwch chi gerdded neu gael anhawster sylweddol iawn wrth gerdded. Rhaid i chi atodi llungopi y llythyr hwn fel prawf o'ch hawl.

Os ydych chi wedi colli'r llythyr hwn, yna gellir cysylltu â'r asiantaeth drwy'r rhif ffôn ymholiadau rhadffôn: 0808 191 4218.

### **Adran 3 – Meini Prawf Disgresiwn, Cwestiynau i ymgeiswyr gydag amhariad cerdded.**

Mae'n bwysig cwblhau'r adran hon yn llawn. Os ydych yn teimlo nad yw cwestiwn yn berthnasol i chi, nodwch yn gryno pam. Gallai methu â chwblhau'r holl gwestiynau olygu fod y ffurflen yn cael ei dychwelyd atoch ac os byddwch yn cael eich asesu fel rhywun cymwys, bydd oedi cyn cyflwyno'r Bathodyn Glas. Mae hyn yn benodol bwysig pan fo deilydd Bathodyn Glas cyfredol yn gwneud cais am fathodyn newydd. Cyfeiriwch yn ôl at y nodyn ar ddechrau Adran 1.

Mae nam parhaol yn un sy'n debygol o fodoli am oes. Nid yw cyflyrau meddygol megis asthma, afiechyd Crohn/ cyflyrau anymataliaeth a Myalgic Encephalomyelitis (M.E.) yn eu hunain yn golygu eich bod yn gymwys am fathodyn. Gallai pobl sy'n dioddef o'r cyflyrau hyn fod yn gymwys dan y meini prawf hyn, ond ddim ond os nad ydynt yn medru cerdded neu yn cael anhawster sylweddol i gerdded, yn ogystal â'u cyflwr.

Mae cael anhawster sylweddol i gerdded yn golygu methu cerdded yn bell iawn heb gael anhawster, megis:

- Poen eithafol
- Diffyg anadl
- Cyflymder cerdded
- Defnyddio cymorthyddion cerdded
- Defnyddio meddyginiaeth

Mae'n bwysig eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi eich cais a bod y dystiolaeth yn ddiweddar, o fewn y 12 mis diwethaf.

### **Adran 6 – Meini Prawf Disgresiwn, Cwestiynau ar gyfer ymgeiswyr gydag amhariad yn y ddwy fraich**

Dylai Adran 6 gael ei chwblhau gan ymgeiswyr sydd ag amhariad yn y ddwy fraich. Byddwch angen dangos eich bod yn yrrwr a bod gennych amhariad yn y ddwy fraich a'ch bod yn methu defnyddio, neu'n cael anhawster sylweddol i ddefnyddio rhai mathau o gyfarpar parcio ar y stryd.

Gofynnir am rif trwydded yrru er dibenion gorfodaeth gan mai dim ond pan mai chi yw gyrrwr y cerbyd fyddwch chi'n cael defnyddio'r bathodyn.

## **Adran 7 – Meini Prawf Disgresiwn, Cwestiynau i ymgeiswyr dan dair blwydd oed.**

Dylid cwblhau adran 7 ar ran:

- plant dan dair blwydd oed sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu bod yn rhaid iddynt fod wrth law cyfarpar meddygol swmpus na ellir ei gario o gwmpas â'r plentyn heb anhawster mawr; neu blant dan dair blwydd oed sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu bod angen iddynt gael eu cadw gerllaw cerbyd bob amser, naill ai ar gyfer triniaeth, neu er mwyn iddynt gael eu cludo i leoliad ble gellir eu trin.

Rhaid i riant neu warcheidwad wneud cais ar ran plentyn dan dair blwydd oed.

Gallai'r rhestr o gyfarpar meddygol swmpus y cyfeirir atynt uchod gynnwys:

- peiriant anadlu;
- peiriannau sugno;
- pypiau bwydo;
- cyfarpar gwythiennau;
- gyrwyr nodwyddau;
- cyfarpar gweinyddu ocsigen;
- cyfarpar monitro dirlawnder ocsigen parhaus; a
- castiau a chyfarpar meddygol cysylltiedig ar gyfer cywiro dysplasia'r glun.

Mae'r enghreifftiau o gyflyrau meddygol ansefydlog sy'n golygu y gallai plant sy'n dioddef ohonynt fod angen mynediad rhwydd i gludiant i'r ysbyty neu i'r cartref yn cynnwys:

- traceostomïau;
- epilepsi/ffitiau;
- clefyd siwgr hynod ansefydlog; a
- salwch terfynol sy'n atal plant rhag treulio dim mwy na chyfnodau byrion y tu allan ac sydd angen medru teithio gartref ar fyrder.

Cofiwch nad yw'r rhestrau uchod yn gyflawn, i ganiatáu ar gyfer datblygiadau mewn technoleg a chyfarpar trin.

Rhaid i chi atodi llythyr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi bod yn rhan o driniaeth eich plentyn (er enghraifft, eich paediatregydd), gan roi manylion ynghylch cyflwr meddygol y plentyn a'r math o gyfarpar meddygol maent ei angen, neu ddarparu manylion cyswllt y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Dylai'r llythyr gyfeirio at gyfeiriad cartref eich plentyn er mwyn darparu prawf preswyliaeth i'r awdurdod lleol.



## **Adran 8 – Datganiadau a llofnodion.**

- Adran 8a): Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r datganiadau gorfodol perthnasol, gan eu bod yn tanategu'r telerau gwneud cais am Fathodyn Glas. Treuliwch amser yn darllen ac yn deall y datganiadau hyn, gallai peidio â arwyddo'r ffurflen olygu nad oes modd i'ch awdurdod lleol dderbyn eich cais am Fathodyn Glas.
- Adran 8b): Rhaid i bob ymgeisydd lofnodi a dyddio'r ffurflen cyn ei chyflwyno Adran

Gallai awdurdod lleol wrthod cyflwyno bathodyn os oes ganddo reswm i gredu nad yr ymgeisydd yw'r person maent yn honni neu fod y bathodyn am gael ei ddefnyddio gan rywun arall heblaw am y person sydd wedi derbyn y bathodyn.

Os bydd eich cais am fathodyn yn llwyddiannus, anfonir copi o'r daflen "Y Cynllun Bathodyn Glas – Hawliau a Chyfrifoldebau yng Nghymru" atoch gyda'r bathodyn. Mae'r daflen hon yn egluro rheolau'r Cynllun a sut i ddefnyddio'r bathodyn yn briodol. Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen y daflen wrth dderbyn eich Bathodyn Glas newydd, hyd yn oed os ydych chi wedi cael Bathodyn Glas yn y gorffennol gan y gallai rheolau newydd fod yn eu lle ar sut i ddefnyddio'r bathodyn. Gallai methu â chydymffurfio â'r hawliau 'r cyfrifoldebau arwain at:

- dynnu'r bathodyn yn ei ôl
- hysbysiad cosb benodedig am drosedd parcio
- erlyniad am amrywiol droseddau ble mae'r hawliau a'r cyfrifoldebau wedi'u cymhwyso'n anghywir neu'n dwyllodrus.

Gweler y daflen hon yn:

<http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/bluebadgeschemeinfo/?lang=en>

## **Gwybodaeth arall**

Fel arfer, mae Bathodynnau Glas yn cael eu cyflwyno am gyfnod o dair blynedd a bydd angen i chi ddychwelyd eich bathodyn os bydd eich cyflwr yn gwella ac nad oes arnoch angen y bathodyn mwyach. Wedi tair blynedd, bydd angen i chi wneud cais am fathodyn newydd os ydych chi'n dymuno parhau'n rhan o'r cynllun.

Pan nad oes angen Bathodyn Glas mwyach yn dilyn profedigaeth, bydd y gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith' sy'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol yn eich atgoffa am y ddyletswydd i ddychwelyd y bathodyn.